# Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020

**2020 dccc 1**

## RHAN 2

AILENWI CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU ETC.

### 2 Ailenwi Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru neu Welsh Parliament

Yn adran 1(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) ("Deddf 2006"), yn lle "the National Assembly for Wales" hyd at y diwedd rhodder "Senedd Cymru or the Welsh Parliament (referred to in this Act as "the Senedd")".

### 3 Ailenwi Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Ddeddfau Senedd Cymru

Yn adran 107(1) o Ddeddf 2006, yn lle "the National Assembly for Wales" hyd at y diwedd rhodder "Senedd Cymru or Deddfau Senedd Cymru (referred to in this Act as "Acts of the Senedd")".

### 4 Galw aelodau yn Aelodau o'r Senedd

Yn adran 1 o Ddeddf 2006, ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

"(2A) Members of the Senedd are to be known by that name or as Aelodau o'r Senedd."

### 5 Ailenwi Clerc y Cynulliad yn Glerc y Senedd

Yn adran 26(2) o Ddeddf 2006, yn lle "Assembly" rhodder "Senedd, Clerc y Senedd".

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

**6 Ailenwi Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Gomisiwn y Senedd**

Yn adran 27(1) o Ddeddf 2006, yn lle "National Assembly for Wales Commission or Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru" rhodder "Senedd Commission or Comisiwn y Senedd".

**7 Ailenwi Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Gomisiynydd Safonau y Senedd**

Yn adran 1(1) o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 (mccc 4), yn lle "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" rhodder "y Senedd".

**8 Ailenwi Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**

Yn adran 1(1) o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 (mccc 4), yn lle "Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru" rhodder "bwrdd i'w alw'n Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd".

**9 Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol**

Mae Atodlen 1 yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â'r Rhan hon.